

Perffeithio Adolygiadau Cymheiriaid

Andrew Bond



Pam Aseu Cymheiriaid?

Cyfle i ddysgwyr gymryd rheolaeth o'u dysgu.

- Cyflwyno myfyrwyr i waith eu cyfoedion.
- Datblygu sgiliau gwerthuso myfyrwyr.
- Annog adborth ffurfiannol.
- Lleihau llwyth marcio hyfforddwyr.
- Gwella dealltwriaeth o gyfarwyddiadau marciau.



Beth sydd ei angen arnom i greu Amgylchedd Adolygiad Cymheiriaid perffaith?

- Amgylchedd Ddiogel a Chalonogol.
- Cydweithio a Deialog Rheoledig.
- Nodau a Disgwyliadau Clir.
- Sgaffald a Chefnogaeth.
- Darparu Cymhellion a Chydnabyddiaeth.
- Meithrin Annibyniaeth.



Gweithgaredd.

Trwy asesu neu werthuso gwaith ei gilydd, mae myfyrwyr yn ymgymryd â rôl gwerthuswyr a, thros amser, yn caffael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lunio barn ar eu gwaith eu hunain (Sadler, 2010).



Annog Cydweithio a Chyfathrebu

Mae adolygiadau cymheiriaid nid yn unig yn ymwneud â rhoi a derbyn adborth, ond hefyd â **cydweithio a chyfathrebu â chymheiriaid**. Gallwch annog cydweithio a chyfathrebu trwy greu diwylliant adolygiad cymheiriaid cadarnhaol a chefnogol yn eich ystafell ddosbarth, lle mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi safbwyntiau a chyfraniadau ei gilydd.



Annog Cydweithio a Chyfathrebu



Gallwch ddefnyddio gwahanol fformadau a llwyfannau ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid, megis wyneb yn wyneb, ar-lein, cydamserol, neu anghydamserol, i gyd-fynd â dewisiadau ac anghenion eich myfyrwyr. Gallwch hefyd gynnwys myfyrwyr wrth **gyd-greu'r meini prawf a'r broses adolygiad cymheiriaid**, ac wrth fyfyrio ar eu profiadau o adolygu cymheiriaid.

Gweithgaredd.

Mae adolygiadau cymheiriaid yn galluogi myfyrwyr i adnabod meysydd eu cryfderau a'u gwendidau fel aelodau o dîm (Lerchenfeldt et. al., 2019).



Beth Allai'r Disgyblion Feddwl?

Safbwynt disgybl ar adolygiad cymheiriaid.. **meithrin ymddiriedaeth a hyder**

Mae angen i mi wybod y bydd fy ngwaith yn cael ei barchu.

Dydw i ddim yn hoffi cael sylwadau negyddol am fy ngwaith.

Mae angen i mi wybod y bydd hyn mewn gwirionedd yn fy helpu i wella.

Rwy'n poeni y bydd pobl yn cymryd fy sylwadau yn y ffordd anghywir.

Beth os bydd eraill yn anghytuno gyda fy mhwyntiau?

Rwy'n poeni y bydd eraill yn meddwl fy mod i'n bod yn rhy feirniadol.

Beth os na fydd y gweddill yn cymryd fy awgrymiadau o ddifrif?

Dydw i ddim cystal yn y pwnc hwn â rhai o'r disgyblion eraill. Pam ddylen nhw wrando arna i?

Gosod Nodau a Disgwyliadau Clir

- Dysgwch dechnegau adolygu cymheiriaid gwahanol i fyfyrwyr fel darllen yn uchel, anodi, neu ddefnyddio cyfarwyddiadau i werthuso aseiniadau.
- Anogwch adolygwyr cymheiriaid i dynnu sylw at ddarnau neu adrannau penodol y buont yn eu gweld yn arbennig o effeithiol neu y mae angen eu gwella.



Carol Dweck:

Meddylfryd sefydlog	Meddylfryd twf
Mae deallusrwydd yn sefydlog “Rhaid imi edrych mor glyfar!”	Mae modd ehangu deallusrwydd “Rydw i eisiau dysgu mwy.”
Mae'r pwyslais ar allu a chystadleuaeth	Mae'r pwyslais ar gyflawniad a thwff
Osgoi heriau	Croesawu heriau
Mae dysgu yn gyfyngedig “Gallaf...”	Mae dysgu yn gontinwwm “Rwy’n dysgu...”
Yn debygol o aros yn sefydlog yn gynnar a chyflawni llai na llawn potensial	Cyrraedd lefelau cyrhaeddiad uwch byth

Adolygiad Cymheiriaid ar Waith: Dechrau arni

Athro	Myfyrwyr
<ul style="list-style-type: none">• Mae'r athro yn dechrau cynllunio ar gyfer adolygiad cymheiriaid a hunanasesu.• Gwneir amcanion a deilliannau dysgu yn eglur ac yn dryloyw fel y gall disgyblion nodi pa mor dda y maent wedi bodloni'r meini prawf llwyddiant.• Mae'r athro yn magu hyder wrth ddarparu cyfleoedd adolygiad cymheiriaid.	<ul style="list-style-type: none">• Mae rhai disgyblion yn dechrau asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn erbyn yr amcanion dysgu a'r deilliannau dysgu. Mae rhai disgyblion yn magu hyder mewn trafodaethau pâr a grŵp ac yn dechrau rhoi adborth adeiladol.

Adolygiad Cymheiriaid ar Waith: Gwella

Athro	Myfyrwyr
<ul style="list-style-type: none">• Mae'r athro yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyfleoedd asesu cymheiriaid a hunanasesu.• Mae'r athro yn darparu meini prawf llwyddiant sy'n disgrifio dilyniant mewn agweddau o'r pwnc y mae disgyblion yn asesu a gwella eu gwaith eu hunain yn eu herbyn.• Mae'r athro yn dewis o ystod o strategaethau asesu cymheiriaid a hunanasesu ac yn eu defnyddio'n hyderus.• Rhoddir amser i ddisgyblion fyfyrion'n annibynnol neu ar y cyd ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu a sut y maent wedi dysgu.• Mae'r athro yn hyfforddi disgyblion i weithio'n effeithiol mewn trafodaethau grŵp ac yn modelu sut i roi adborth adeiladol ac addysgiadol.	<ul style="list-style-type: none">• Gall disgyblion ddefnyddio meini prawf llwyddiant i asesu a gwella eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Maent yn adnabod y safonau y maent yn anelu atynt yn y pwnc.• Mae disgyblion yn gynyddol hyderus wrth asesu eu gwaith eu hunain ac yn rhoi adborth addysgiadol ac adeiladol i eraill.

Adolygiad Cymheiriaid ar Waith: Bwrw Ymlaen

Athro	Myfyrwyr
<ul style="list-style-type: none">• Mae'r athro yn gweithio gyda disgyblion i nodi meini prawf llwyddiant sy'n ymwneud â chynnydd yn y cysyniadau a'r medrau allweddol ar gyfer y pwnc.• Mae'r athro'n trefnu ac yn cynnal deialog disgyblion gydag ymyrraeth amserol i gyflymu dealltwriaeth a datblygu dysgu annibynnol.• Mae'r athro'n parhau i archwilio gyda disgyblion sut maen nhw'n dysgu'n fwyaf effeithiol a sut y gallant gymhwyso hyn.• Mae cynllunio yn galluogi nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer mentrau trawsgwricwlaidd a'u defnyddio ar gyfer adolygiad cymheiriaid a hunanasesu.	<ul style="list-style-type: none">• Gall disgyblion adnabod yn annibynnol sut i symud eu dysgu ymlaen.• Mae disgyblion yn cysylltu meini prawf llwyddiant yn rhwydd â dilyniant yn y pwnc.• Gall disgyblion gymryd rhan mewn deialog estynedig a ffocysedig am eu dysgu.• Mae disgyblion yn cymhwyso dealltwriaeth o sut maent yn dysgu i wneud cynnydd gwell mewn cyd-destunau gwahanol.

Adolygiad Cymheiriaid: Enghraifft

Celfyddydau perfformio

Pwy wnaethoch chi wyllo?

Tegan Ives

Ym mha dosbarth/ymarfer?

Dosbarth Jazz Grace

Sgiliau corfforol/technegol

Aliniad cywir, hyblygrwydd, estyniad, cylchdroi, cyfranogiad y corff cyfan/ynysu'r corff cyfan, trosglwyddo pwysau, ymsymudiad, codiad, cydbwysedd.

Wrth wyllo Tegan yn y dosbarth heddiw roedd yn amlwg ei bod wedi bod yn mynd dros ei hymarferion yn ei hamser hamdden. Roedd symudiadau ynysu corff Tegan yn gryf iawn ac fe'u gwnaed yn dda iawn. Llwyddodd i symud rhannau o'r corff a oedd i fod i gael eu symud yn unig. Trwy gydol y rhan fwyaf o'r ymarferion, roedd lleoliad braich Tegan yn eithaf braf a chryf. Wrth wyllo Tegan, roedd hi'n amlwg ei bod hi'n hyderus yn yr hyn oedd yn dod nesaf ym mhob ymarferiad felly nawr dwi'n meddwl y gallai hi dalu mwy o sylw i wneud yn siŵr bod lleoliad ei chorff yn gywir yn yr ymarferion, er enghraifft, dylai wneud yn siŵr ei chefn yn syth yn ystod yr adran burpî yn "Run Boy Run" er mwyn i'r ymarfer fod mor fuddiol â phosib. Rwy'n deall bod yr ymarfer hwn yn anodd ond rwy'n meddwl nawr bod Tegan yn hyderus gyda threfn yr ymarferion mae hi'n gallu gwthio ei hun yn fwy trwy gywiro lleoliadau corff. Wrth berfformio'r coreograffi dwi'n meddwl bod Tegan yn edrych yn dda iawn ac roedd ganddi ddealltwriaeth dda o'r drefn. Wedi dweud hyn fodd bynnag, roeddwn yn synhwyro ychydig o betruster ar adegau ond rwy'n siŵr y bydd Tegan yn mynd dros y drefn yn ei hamser ei hun ac yn gofyn cwestiynau os oes angen gan fy mod yn gwybod ei bod wedi gwneud hyn o'r blaen, fel yr amser yr oedd holl grŵp B ar y ffôn yn ailadrodd y coreograffi. Rwy'n teimlo bod techneg ddawns Tegan wedi'i chymhwyso'n dda a bod ei throeon wedi datblygu'n dda iawn. Ar sawl achlysur mae Tegan wedi honni nad yw'n ddawnswraig gref, fodd bynnag dwi'n meddwl yn wahanol!

Adolygiad Cymheiriaid: Enghraifft

Rhoi adborth

I'ch helpu i roi adborth i'ch gilydd, darllenwch y nodiadau isod...

Mewn trafodaeth â'ch partner, rhowch sylwadau ar y meysydd o'r gwaith perfformio y mae wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Cofiwch nad yw hwn yn gyfle i chi fod yn negyddol os nad ydych chi'n cael rhywbeth yn iawn. Mae'n sylwebaeth gefnogol.

Gwerthuswch eu cryfderau a'u gwendidau, trafodwch unrhyw feysydd i'w gwella a siaradwch am strategaethau y gallant eu defnyddio i ddatblygu eu gwaith. Mewn trafodaeth bydd angen i chi osod 3 tharged S.M.A.R.T i'ch partner weithio tuag atynt.

TARGEDAU SMART AR GYFER Y DOSBARTH NEU YMARFER NESAF	SUT BYDDANT YN CYFLAWNI HYN?	SUT BYDDANT YN GWYBOD EU BOD WEDI CYFLAWNI HYN?
1. Cywiro unrhyw ddadleoliadau corff	Yn ystod ein sesiwn asesu wythnos diwethaf fe wnes i ffilmio ymarferion a dawnsiau Tegan. Os bydd Tegan yn edrych dros y fideo bydd hi'n deall beth dwi'n ei olygu.	Teimlaf y bydd Tegan yn gwybod pan fydd hi wedi cyflawni hyn oherwydd bydd yn teimlo mwy o frwydr wrth wneud yr ymarferion (adran burpî yn arbennig).
2. Cywiro unrhyw ddadleoliadau corff	Po fwyaf hyderus y daw Tegan, y mwyaf fydd y perfformiad yn dod iddi yn naturiol.	Teimlaf po fwyaf y mae Tegan yn mynd dros y coreograffi, y mwyaf o gof cyhyr y bydd hi'n ei gael. Unwaith y bydd y coreograffi yn gof cyhyr, bydd y perfformiad yn gallu bod yn brif flaenoriaeth.
3. Bod yn fwy hyderus gyda'r coreograffi	Mae gan Tegan ddealltwriaeth dda o'r coreograffi ond mae angen iddi wybod ei bod hi'n gwybod. Unwaith eto, fe wnes i ffilmio Tegan yn dawnsio er mwyn iddi edrych dros hwn a gweld dros ei hun pa mor dda mae hi'n dawnsio.	Bydd y ddawns yn dod yn haws iddi a bydd hi'n gallu ychwanegu ei steil jazz ei hun i'r coreograffi.

Dysgwyr amharod



Sgaffald a Chefnogaeth

Nid yw adolygiad cymheiriaid yn weithgaredd un-amser, ond yn broses barhaus sy'n gofyn am sgaffaldiau a chefnogaeth. Mae'n bwysig bod gan ddysgwyr yr offer i adolygu cymheiriaid yn llwyddiannus.



Enghreifftiau o dempledi Adolygiad Cymheiriaid

Gradd	Disgrifiad	C	M	G
Dechrau	<p>A ydyn nhw wedi nodi rhai rhesymau dros</p> <p>A ydyn nhw wedi ysgrifennu mewn brawddegau llawn?</p>			
Datblygu	<p>A ydyn nhw wedi dechrau defnyddio tystiolaeth i gefnogi eu disgrifiad?</p> <p>A ydy eu <u>hysgrifennu</u> yn glir i'w deall?</p>			
Sicrhau	<p>A ydyn nhw wedi <u>egluro'n fanwl</u> am</p> <p>A ydyn nhw wedi dechrau <u>dod i gasgliad</u> ynglŷn â pha un oedd y <u>ffactor pwysicaf</u>?</p> <p>A yw eu <u>hysgrifennu</u> yn glir iawn ac yn hawdd i'w deall, gan ddefnyddio paragraffau?</p>			

Technegau Holi Cymheiriaid

Holi lefel is

Gwybodaeth

Allwch chi gofio...?
 Allwch chi ddewis...?
 Sut fyddech chi'n disgrifio...?
 Beth yw...?
 Pa un...?
 Pwy oedd y prif...?
 Pam wnaeth...?
 Sut fyddech chi'n dangos...?
 Lle mae...?

Dealltwriaeth

Allwch chi esbonio beth yw ystyr...?
 Sut fyddech chi'n cymharu...?
 Sut fyddech chi'n crynhoi...?
 Beth allwch chi ei ddweud am...?
 Pa ddatganiadau sy'n cefnogi...?
 Pa ffeithiau sy'n dangos..?

Defnydd

Sut fyddech chi'n defnyddio...?
 Pa enghreifftiau allwch chi ddod o hyd i...?
 Sut fyddech chi'n dangos eich dealltwriaeth o...?
 Sut fyddech chi'n defnyddio'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu i ddatblygu...?
 Beth fyddai'r canlyniad petai...?
 Pa ffeithiau...?

Dadansoddiad

Sut mae __ yn gysylltiedig â...?
 Pam ydych chi'n meddwl...?
 Pa gymhelliad sydd...?
 Pa gasgliad allwch chi ei wneud...?
 Sut fyddech chi'n dosbarthu...?
 Pa dystiolaeth allwch chi ddod o hyd iddi...?
 Beth yw'r thema...?
 Beth yw swyddogaeth...?

Holi lefel uwch

Synthesis

Pa newidiadau fyddech chi'n eu gwneud...?
 Allwch chi ddyfeisio...?
 Sut fyddech chi'n newid y...?
 Allwch chi gynnig dewis arall...?
 Allwch chi ymhelaethu ar y rheswm...?
 Allwch chi ragweld...?
 Allwch chi lunio...?

Gwerthusiad

Beth yw eich barn am...?
 Sut fyddech chi'n gwerthuso...?
 Sut fyddech chi'n penderfynu...?
 Pa farn fyddech chi'n ei gwneud am...?
 Pa wybodaeth fyddech chi'n ei defnyddio i gefnogi'r safbwynt...?

Meithrin Annibyniaeth a Pherchenogaeth

Gall adolygiad cymheiriaid fod yn fwy grymusol ac ystyrlon i fyfyrwyr os oes ganddynt rywffaint o **annibyniaeth a pherchenogaeth dros eu dysgu eu hunain**. Gallwch feithrin annibyniaeth a pherchenogaeth trwy roi rywffaint o ddewis a hyblygrwydd i fyfyrwyr wrth adolygu cymheiriaid, megis **gyda phwy y maent yn gweithio, ar beth maent yn gweithio, sut maent yn rhoi ac yn derbyn adborth, a sut maent yn defnyddio'r adborth i wella eu gwaith**. Gallwch hefyd annog myfyrwyr i osod eu nodau a'u meini prawf eu hunain ar gyfer adolygiad cymheiriaid, ac i fonitro a gwerthuso eu cynnydd a'u canlyniadau eu hunain.



Awgrymiadau



Gall adolygiadau cymheiriaid fod yn hyblyg ac ar gael ar gyfer unrhyw dasg cwricwlwm. Gellir addasu'r awgrymiadau a ddefnyddir ar gyfer y lefel a'r tasgau y mae'r dysgwyr yn eu gwneud.

Awgrymiadau Gwahanol

Mae angen i ddogfennau adolygiad cymheiriaid fod mor hyblyg â'r amcanion asesu eu hunain.

1. Eglurder Syniadau: A oedd y cynnwys yn egluro'r pwyntiau allweddol yn glir, neu a oedd angen mwy o fanylion neu symleiddio?
2. Strwythur a Threfniadaeth: A oedd y cyflwyniad neu'r gwaith yn drefnus, gyda llyf rhesymegol o un pwynt i'r llall? Os na, pa newidiadau fyddai'n gwella'r strwythur?
3. Ansawdd y Cyflwyniad: A wnaeth y cyflwyniad ddal eich sylw a gosod y llwyfan ar gyfer yr hyn oedd i ddilyn? Beth fyddai'n ei wneud yn fwy diddorol?
4. Defnyddio Tystiolaeth: A ddefnyddiodd y cynnwys dystiolaeth, data neu enghreifftiau perthnasol i gefnogi'r prif bwyntiau? A oedd y ffynonellau yn gredadwy?
5. Troswyntiau A oedd y trosglwyddo rhwng adrannau neu bynciau yn llyfn ac yn hawdd i'w dilyn? Os na, pa droswyntiau sydd angen eu gwella?

Darparu Cymhellion a Chydnabyddiaeth

Gall adolygiadau cymheiriaid fod yn fwy ysgogol a diddorol i fyfyrwyr os ydynt yn gweld bod eu hymdrechion yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo. Gallwch roi cymhellion a chydnabyddiaeth ar gyfer adolygiad cymheiriaid trwy ei ymgorffori yn eich system asesu a graddio.




Darparu Cymhellion a Chydnabyddiaeth



Gallwch hefyd ddefnyddio elfennau gêm, fel bathodynau, pwyntiau, neu lefelau i wneud adolygiad cymheiriaid yn fwy hwyliog a heriol. Gallwch hefyd arddangos a dathlu'r enghreiffiau gorau o adborth gan gymheiriaid a gwaith cymheiriaid yn eich ystafell ddosbarth neu ar-lein. Gall chydnabyddiaeth ddod mewn sawl ffurf.

Cymhellion Digidol



Cofnodi effaith

Gallai cymhellion gael eu clymu i fathodynnau digidol neu gymhellion y Coleg.

Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Meddyliwr Dadansoddol	115
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Penderfynwr	206
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Gwerthuswr	270
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Gwneud Argymhelliad	412
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Datryswr Problemau	165
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Adlewyrchwr	286
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Rhannu Syniadau	841
Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	Canolbwyntio ar ddatrysiadau	486

Cyfeiriadau

- Lee, H.-J., & Lim, C. (2012). Peer Evaluation in Blended Team Project-Based Learning: What Do Students Find Important? *Educational Technology & Society*, 15 (4), pp.214–224.
- Lerchenfeldt, S., Mi, M. & Eng, M. (2019). The utilization of peer feedback during collaborative learning in undergraduate medical education: a systematic review. *BMC Medical Education* 19, 321.
- Sadler, D. R. (2010). Beyond feedback: Developing student capability in complex appraisal, *Assessment and Evaluation in Higher Education*

Perffeithio Adolygiadau Cymheiriaid

Andrew Bond

